Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Datganiad Canlyniadau Graddau 2021/22


PCYDDS

Mae disgwyl i Brifysgolion yng Nghymru a Lloegr gyhoeddi Datganiad Canlyniadau Graddau fel y nodir gan Ddatganiad o Fwriad Pwyllgor Sefydlog y DU ar gyfer Asesu Ansawdd (UKSCQA) i amddiffyn gwerth graddau'r DU.


Mae ein Datganiad Canlyniadau Graddau'n amlinellu proffil dosbarthiadau graddau ac yn cadarnhau bod ein canlyniadau gradd yn cael eu hadolygu'n flynyddol, trwy brosesau ansawdd academaidd y Brifysgol gan sicrhau bod ein safonau academaidd wedi'u pennu a'u cynnal yn briodol o ran disgwyliadau allanol.

# Proffil Dosbarthiadau Graddau PCYDDS

Cyflwynir ein proffil dosbarthiadau graddau isod, ac mae'n cynnwys data dosbarthiadau graddau ar gyfer myfyrwyr israddedig sy'n ennill graddau dosbarthedig ar Lefel 6 (Baglor) a Lefel 7 (Meistr Integredig) fel y'u diffinnr gan Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ).





Dengys y data y bu cynnydd bychan, o 67% i 70%, yng nghyfran y myfyrwyr sy'n cael graddau dosbarth da (1af a 2.1) dros y cyfnod o saith mlynedd (2015/16 i 2021/22). Yn sgil ailgalibro algorithm graddau'r Brifysgol yn 2015/16, cododd y gyfradd o raddau anrhydedd da fel ei bod yn unol ag arfer y sector. Ers yr ailgalibro, bu'r tueddiadau yn lled debyg i'r rhai ar draws y sector. Yn 2021/22, gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn graddau anrhydedd da o gymharu â 2019/20 a 2020/21, gyda chyfran sylweddol is o fyfyrwyr yn ennill gradd dosbarth cyntaf. Mae'r gostyngiad hwn yn fwy na thuedd y sector, ac mae'n debyg ei fod yn ganlyniad i ostyngiad cyffredinol yn nifer y dyfarniadau anrhydedd da a'r gostyngiad sylweddol o fewn dau grŵp CAH a drafodir isod. Gellir priodoli'r gostyngiad cyffredinol mewn graddau anrhydedd da yn rhannol i derfynu'r rheoliadau wrth gefn yn sgil Covid, a ddaeth i rym gyntaf yn 2019/20 ac eto yn 2020/21, ac mae hyn yn unol â'r camau a gymerwyd a'r tueddiadau a welwyd ar draws y sector.




# Dadansoddiad o Raddau Anrhydedd Da (1af a 2.1) yn ôl Llinell Pwnc CAH

Dengys y data bod amrywiadau yng nghyfran y myfyrwyr sy'n ennill dosbarthiadau gradd anrhydedd da rhwng dosbarthiadau pwnc yn y Brifysgol. Yn gyffredinol mae'r amrywiadau hyn yn unol â meincnodau cenedlaethol, gydag un eithriad nodedig.





Y maes pwnc lle dyfarnwyd y nifer mwyaf o raddau ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn 2020/21 oedd Busnes a Rheolaeth gyda 420, a dyfarnwyd 64% o raddau anrhydedd da. Mae hyn yn is na Chymru (70%) ac yn is na'r DU (75%) am y maes pwnc hwn, ac mae'n cynrychioli gostyngiad o ryw 10% yn y Brifysgol o'i gymharu â gostyngiad o ryw 5% ar draws y sector. Y maes pwnc lle dyfarnwyd y nifer mwyaf ond un o ddyfarniadau yn y Brifysgol yn 2020/21 oedd Dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio gyda 275, a dyfarnwyd 74% o raddau anrhydedd da, i lawr o 88% yn 2020/21. Mae hyn bellach ychydig yn is na chyfartaledd sectorau Cymru (78%) a'r DU (82%) am y maes pwnc hwn. Mae'r Brifysgol wedi gweld twf sylweddol yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio yn y meysydd sy'n gysylltiedig â'r Gyfraith, a dyma'r garfan gyntaf sy'n weladwy yn nata'r Brifysgol. Gwnaeth y myfyrwyr hyn yn sylweddol waeth na chyfartaledd y sector.

# Dadansoddiad o Raddau Anrhydedd Da (1af a 2.1) yn ôl Nodweddion Myfyrwyr





Trwy gydol y cyfnod, mae gwahaniaeth bychan rhwng perfformiad myfyrwyr ag anabledd datganedig a'r rheiny nad oes ganddynt anabledd datganedig. Mae gwasanaethau cymorth cryf ar waith gan y Brifysgol a dros y chwe blynedd mae myfyrwyr sydd ag anabledd datganedig wedi ennill graddau anrhydedd da ar gyfradd eithaf tebyg i fyfyrwyr heb anabledd ac uwch na chyfartaleddau cenedlaethol.





Mae bwlch cyson rhwng cyrhaeddiad menywod/dynion. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae canlyniadau anrhydedd da myfyrwyr benywaidd wedi bod yn uwch na chyfartaleddau'r DU a Chymru; ond, mewn cyferbyniad â hynny, mae canlyniadau myfyrwyr gwrywaidd wedi parhau'n is na chyfartaleddau Cymru a'r DU. Yn rhan o'r Strategaeth Llwyddiant Academaidd, mae'r Brifysgol wedi nodi bod dynion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn fwy tebygol o'i chael yn anodd yn y Brifysgol. Mae nifer o lwybrau amgen, gan gynnwys Gradd-brentisiaethau, wedi cynyddu cyrhaeddiad yn y grŵp hwn.

## % GRADDAU ANRHYDEDD DA YN ÔL ETHNIGRWYDD




Mae'r Brifysgol wedi gwneud cynnydd wrth gau'r bwlch o ran graddau anrhydedd da rhwng myfyrwyr lleiafrifoedd ethnig a rhai nad ydynt yn fyfyrwyr lleiafrifoedd ethnig, er ei fod yn ymddangos bod y pandemig wedi cael effaith fwy difrifol ar y grŵp hwn. Yn sgil dileu'r rheoliadau wrth gefn, gwelwyd gostyngiad mwy sylweddol yng nghyfradd y graddau anrhydedd da ymhlith myfyrwyr ethnig nad ydynt yn fyfyrwyr lleiafrifoedd ethnig (13%) na myfyrwyr lleiafrifoedd ethnig (8%). Mae'r Brifysgol wedi cyflwyno nifer o fentrau i gefnogi cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig, mae'r rhain yn cynnwys rhaglen camu i fyny bwrpasol i lefel 5, adolygiad o asesu a mecanweithiau cefnogi. Caiff ystod o fentrau ychwanegol eu hamlinellu yng Nghynllun Cydraddoldeb Hiliol y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn ymgymryd â phrosiect ymchwil ehangach i gyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig yn rhan o'i Gynllun Cydraddoldeb Hiliol ac wedi nodi deilliannau gwahaniaethol rhwng grwpiau lleiafrifoedd ethnig gwahanol.

## % GRADDAU ANRHYDEDD DA YN ÔL GRŴP OEDRAN




Yn rhan o'n hymrwymiad i ddysgu gydol oes, mae gan y Brifysgol ganran gynyddol o fyfyrwyr hŷn. Yn 2019/20, roedd 80% o fyfyrwyr PCYDDS yn 21 oed neu'n hŷn ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, cynnydd o 2% er 2018/19, gyda 44% o'r boblogaeth myfyrwyr dros 30 oed. Yn draddodiadol mae ein myfyrwyr hŷn, yn arbennig y rheiny sy'n dod i astudio ar ôl troi'n 30 oed, wedi perfformio'n uwch na chyfartaledd y sector o ran cyflawniad gradd. Nid yw'r cwymp bychan yng nghyrhaeddiad myfyrwyr yn yr ystod oedran 30+ adeg y pandemig yn syndod o ystyried ei bod yn debygol bod mwy o bwysau teuluol a phwysau gwaith ar y grŵp hwn, er i hyn gael ei liniaru i raddau gan y rheoliadau wrth gefn a oedd o gymorth i bob myfyriwr. Yn sgil dileu'r rheoliadau wrth gefn, wynebodd pob grŵp ddirywiad tebyg yng nghyfradd y graddau anrhydedd da, a oedd yn unol â'r newidiadau ar draws y Brifysgol.

## Arferion asesu a marcio

Mae ein system o oruchwylio ansawdd academaidd, a amlinellir yn fanwl yn ein Rheoliadau Academaidd a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig, yn sicrhau bod holl gymwysterau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant o safon academaidd briodol. Yn ogystal, mae ein rheoliadau a pholisïau yn cadarnhau ein harferion asesu a marcio.

Mae ein prosesau cynllunio, cymeradwyo, dilysu, monitro ac adolygu yn sicrhau bod ein disgwyliadau gan raddedigion mewn disgyblaethau yn cyd-fynd â datganiadau meincnod pwnc yr ASA a lle bo'n berthnasol, ofynion y Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio (PSRB).

Mae'r Brifysgol yn defnyddio meini prawf marcio sylfaenol safonol a addasir i ofynion y pwnc i sicrhau bod safonau'n gyson ar draws y sefydliad.

Mae arholwyr ac adolygwyr allanol yn allweddol i'n prosesau sicrwydd. Mae'r sawl a benodir yn academyddion sy'n brofiadol o ran asesu, cynllunio cwricwlwm a chyfoethogi profiad myfyrwyr. Mae arholwyr/adolygwyr allanol yn elfen hanfodol o ddatblygu rhaglenni ac o asesu myfyrwyr. Caiff arholwyr allanol eu penodi fesul modwl ac maent yn aelodau llawn o Fyrddau Arholi. Mae adolygwyr allanol yn adolygu holl ddogfennau dilysu rhaglenni. Amlinellir y meini prawf ar gyfer eu penodi a'u rôl yn y Rheoliadau ar Asesu: Rhaglenni a Addysgir a chynhelir diwrnod briffio blynyddol ar gyfer pob arholwr ac adolygwr allanol newydd. Darperir crynodeb a throsolwg o adroddiadau arholwyr allanol bob blwyddyn i'r PSA.

Mae staff y Brifysgol hefyd yn gweithredu fel arholwyr ac adolygwyr allanol mewn sefydliadau eraill. Yn ogystal, ceir ystod o gyfleoedd datblygu staff, yn cynnwys gweminarau ar reoliadau, cynlluniau cydnabyddiaeth megis cymrodoriaeth AU Ymlaen, a chynhadledd dysgu ac addysgu flynyddol (NEXUS), sy'n cyfrannu at ymwybyddiaeth ehangach o bwyntiau cyfeirio allanol a meincnodi pwnc.

## Llywodraethu academaidd

Y Cyngor yw corff llywodraethu'r Brifysgol ac mae'n gyfrifol am reolaeth a gweithrediad effeithlon pob agwedd ar faterion y Brifysgol. Mae'r Senedd yn gyfrifol, ar ran y Cyngor, am bennu polisi a rheoliadau addysgol. Y Pwyllgor Safonau Academaidd, is-bwyllgor o'r Senedd, sy'n bennaf gyfrifol am oruchwylio safonau dyfarniadau'r Brifysgol, cyfrifoldeb a ddirprwywyd iddi'n benodol gan y Senedd.

Mae'r Cyngor yn derbyn adroddiad ansawdd blynyddol gan y Senedd ar weithrediad fframwaith ansawdd academaidd y Brifysgol. Mae'r adroddiad, ymhlith pethau eraill, yn cyflwyno'r proffil canlyniadau graddau i'r Cyngor, datblygiadau o ran dysgu ac addysgu, sicrwydd gan arholwyr allanol ynghylch safonau academaidd, a chadarnhad o'r ffordd mae'r Brifysgol wedi parhau i osod a chynnal safonau academaidd yn cynnwys adfyfyrio ar apeliadau academaidd. Mae'r adroddiad ansawdd blynyddol yn sail i'r ffordd y caiff y Cyngor ei sicrhau o safonau academaidd dyfarniadau.

Un o brif brosesau'r fframwaith ansawdd academaidd, ac sy'n sail i'r adroddiad ansawdd blynyddol, yw'r Adolygiad Blynyddol o Raglenni. Cynhelir Adolygiad Blynyddol o Raglenni ar lefel clwstwr Rhaglenni, Disgyblaeth Academaidd ac Athrofa, gan adrodd i'r PSA, i sicrhau bod disgwyliadau a gofynion o ran safonau academaidd ac ansawdd y profiad myfyrwyr yn cael eu bodloni a bod cynlluniau'n bodoli ar gyfer gwella. Elfen allweddol o'r adolygiad blynyddol yw ystyried setiau data allweddol (e.e. Tariffau Mynediad, Graddau Anrhydedd Da, Arolygon [NSS, UKES, Hynt Graddedigion], tynnu'n ôl) ac adroddiadau arholwyr allanol, i sicrhau bod safonau academaidd yn cael eu cynnal ac i amlinellu cynlluniau ar gyfer gwella yn y flwyddyn academaidd nesaf.

# Algorithmau dosbarthiadau graddau

Cyhoeddir rheoliadau dosbarthiadau graddau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn ei Rheoliadau Dyfarniadau a Addysgir. Cafodd y rheoliadau hyn eu hadolygu a'u diwygio yn 2015/16.

Yn ystod 2014/15, adolygodd y Brifysgol ei rheoliadau dosbarthiadau graddau i wirio p'un a oeddent yn cyd-fynd ag arfer y sector. Cafodd yr adolygiad ei arwain yn allanol gan Adolygydd profiadol o'r ASA a'i seilio ar ymarferiad meincnodi allanol, adolygiad o sylwadau arholwyr allanol a dadansoddiad gofalus o ganlyniadau dosbarthiadau graddau. Canlyniad yr ymarferiad cynhwysfawr oedd ei fod yn glir nad oedd ein rheoliadau dosbarthiadau graddau yn cydymffurfio ag arfer y sector. O ganlyniad i ganfyddiadau'r adolygiad hwn cafodd fformiwlâu dosbarthiadau graddau eu haddasu gyda chymeradwyaeth arholwyr allanol. Cafodd y newidiadau eu gweithredu yn y flwyddyn academaidd 2015/16 ac maent yn esbonio'r cynnydd yn nifer y graddau anrhydedd da sydd bellach yn agos at gyfartaledd y sector.

Er 2015/16 mae algorithm graddau'r Brifysgol wedi defnyddio'r cyfrifiad uchaf o ddau gyfrifiad i ganfod dosbarth myfyriwr ar lefel gradd:

**Dyfarniadau Baglor**

- Cyfartaledd eu 100 credyd gorau ar lefel 6; neu
- Gyfartaledd eu 100 credyd gorau ar lefel 6 gyda phwysiad o 2, a'u 100 credyd gorau ar lefel 5 gyda phwysiad o 1.

**Dyfarniadau Meistr Integredig:**

- Cyfartaledd eu 100 credyd gorau ar lefel 7; neu
- Gyfartaledd eu 100 credyd gorau ar lefel 7 gyda phwysiad o 3, eu 100 credyd gorau ar lefel 6 gyda phwysiad o 2, a'u 100 credyd gorau ar lefel 5 gyda phwysiad o 1.

Yn ogystal, os yw marc terfynol o fewn 2% i fand dosbarth uwch, dyfernir y dosbarth uwch os dyfarnwyd marciau talgrynedig uwchlaw'r ffin am o leiaf hanner y credydau a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r marc cyfartalog terfynol.

Yn 2019/20 a 2020/21, defnyddiwyd rheoliadau wrth gefn i sicrhau nad yw myfyrwyr wedi bod dan anfantais oherwydd y pandemig. Ni chafodd newidiadau 2019/20 effaith sylweddol ar ganran cyffredinol y myfyrwyr a enillodd radd anrhydedd dda. Cafodd y newidiadau yn 2020/21 effaith o ran codi cyfraddau graddau anrhydedd da, sydd wedi gostwng maes o law wrth ddileu'r rheoliadau wrth gefn hyn yn 2021/22.

Mae'r Brifysgol yn parhau i adolygu ei algorithm graddau yn unol â'r adroddiad Egwyddorion ar gyfer Cynllunio Algorithm Effeithiol gan gymryd i ystyriaeth y gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig.

# Arferion addysgu ac adnoddau dysgu

Nodweddir Dysgu ac Addysgu ar draws Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant gan bedair egwyddor allweddol:

- Cydweithredol
- Wedi'i deilwra'n bersonol
- Cynhwysol
- Ffocws proffesiynol

Mae'r pedair egwyddor hon yn adeiladu ar werthoedd strategol y Brifysgol sef cynwysoldeb, cyflogadwyedd, creadigrwydd a chydweithredu, a'i ffocws trosfwaol ar ehangu cyfranogiad a'i hethos dwyieithog. Maent hefyd yn hwyluso ymgysylltu i'r eithaf â gyrwyr allanol allweddol megis Symud Cymru Ymlaen, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, NSS, a'r Arolwg Hynt Graddedigion, yn ogystal ag ymgysylltu â blaenoriaethau cenedlaethol o ran, er enghraifft, dwyster addysgu, budd dysgu, ac addysgu cynhwysol. Mae'r pedair egwyddor allweddol hon hefyd yn cefnogi ymagwedd systemig at wella, a chodi perfformiad yn systematig ar draws yr holl feysydd sy'n gysylltiedig â dysgu ac addysgu. Yn anad dim, maent yn adlewyrchu ethos dysgu ac addysgu penodol Grŵp PCYDDS ac yn arddel ei chenhadaeth. Ym mis Mehefin 2022 cymeradwyodd y Brifysgol Strategaeth Dysgu ac Addysgu newydd a chreu Fframwaith Dysgu ac Addysgu NEXUS i sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi i ddarparu cyfleoedd dysgu ac addysgu rhagorol ar gyfer pob myfyriwr.

Y gwelliannau allweddol i gefnogi dysgu ac addysgu yw:

- Ailachredu Cynlluniau'r Brifysgol o ran Cymrodoriaethau AU Ymlaen.
- Sefydlu Fframwaith Digidol – Dysgu Cyfunol PCYDDS i ddarparu cefnogaeth a chapasiti sy'n rheoli a gyrru datblygiadau addysgegol digidol arloesol ochr yn ochr â llwybrau dysgu proffesiynol newydd.
- Mae'r Brifysgol yn cynnal cynhadledd dysgu ac addysgu flynyddol (NEXUS) sy'n caniatáu i staff o bob rhan o'r Brifysgol rannu a thrafod arfer da ac addysgeg arloesol ac sy'n annog datblygu arddulliau addysgegol gwahanol.
- Sefydlu Fframwaith Dysgu ac Addysgu NEXUS, rhaglen gyfannol o gyfleoedd datblygu a chefnogi staff, er mwyn iddynt allu datblygu a chyfoethogi profiad dysgu myfyrwyr.
- Mae'r Brifysgol hefyd wedi ymestyn ei hadnoddau ar-lein yn sylweddol, gan gynnwys gweithredu system Leganto (rhestr ddarllen ar-lein) ar draws y Brifysgol, ac ymestyn gwasanaeth cymorth iechyd meddwl ar-lein trwy gynyddu mynediad at TogetherAll a gwasanaethau cymorth 24/7 trwy'r Rhaglen Cymorth i Fyfyrwyr.
- Mae'r Brifysgol wedi gweithio'n agos gyda chyflogwyr i sefydlu cwricwla â ffocws proffesiynol trwy nifer o ganolfannau, gan gynnwys Yr Athrofa, yr Uned Prentisiaethau, Academi Cymru ar gyfer Arfer Proffesiynol ac Ymchwil Cymhwysol, a Chanolfan Arloesi Adeiladwaith Cymru yn SA1.